# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)33-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Gwasanaethau'r Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Llywydd bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan Arweinydd y Tŷ, a chroesawodd Carl Sargeant, a oedd yn dirprwyo ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)32-09 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)33-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Prif Chwip y byddai'r canlynol yn digwydd yn y Cyfarfod Llawn:

Datganiad deddfwriaethol gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010.

Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar ei ymddiswyddiad ar ddiwedd y ddadl ar y gyllideb.

Bydd y broses o enwebu Prif Weinidog newydd yn digwydd ar ôl Cwestiynau Llafar i Weinidogion, yn amodol ar gadarnhau ymddiswyddiad y Prif Weinidog.

3.3 Dywedodd y Prif Chwip bod y ddadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi ei gohirio tan 19 Ionawr 2010.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor y bydd Cyfarfod Llawn dydd Mercher yn dechrau am 1pm.

3.5 Dywedodd y Llywydd bod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ei ymchwiliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig wedi ei gohirio tan 13 Ionawr 2010.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor y bydd y ddadl fer ddydd Mercher yn cael ei gohirio (Mark Isherwood: Anhwylder Straen wedi Trawma Cymhleth).

3.7 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.8 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 8 a 9 Rhagfyr 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)33-09(p2)**

3.9 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)33-09(p3)**

3.10 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Mike German AC (Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4) yn gofyn am estyniad posibl o un wythnos i'r dyddiad cau (22 Ionawr yn wreiddiol) i adrodd ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010 - BC(3)33-09(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ganiatáu estyniad hyd at 29 Ionawr 2010.

**Papur eglurhaol gan y Gweinidog ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 - BC(3)33-09(p5a) ac amserlen ddarluniadol - BC(3)33-09(p5b)**

**Papur gan Swyddfa Ddeddfwriaeth y Cynulliad ynghylch cyfeirio'r Gorchymyn Trafnidiaeth arfaethedig at bwyllgor deddfwriaeth a'r amserlen ddarluniadol BC(3)33-09(p6)**

4.2 Bu'r Pwyllgor yn trafod y papurau ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010. Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Gorchymyn at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, gan nodi 29 Ionawr 2010 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

4.3 Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr amserlen dynn, a gofynnodd bod y Pwyllgor yn ystyried y posibilrwydd o drefnu cyfarfodydd ychwanegol, yn ystod y toriad os oes angen, i gyflwyno'r adroddiad erbyn y dyddiad cau.

4.4 Yn ogystal, cytunwyd i wahodd Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i roi adroddiad cynnydd yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Busnes wedi toriad y Nadolig.

**5. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal cyfarfod Pwyllgor ffurfiol yn ardal Wrecsam ddydd Llun 1 Chwefror 2010 - BC(3)33-09(p7)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

**6. Busnes arall**

**Papur gan Siân Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth) yn gofyn i'r Pwyllgor gytuno ar drefniadau cyflwyno arfaethedig Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth yn ystod toriad y Nadolig - BC(3)33-09(p8)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**